

Rhagair

1. Ein gweledigaeth yw bod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, sy'n rhagorol o ran ymchwil ac yn neilltuol yn addysgol, yn cael ein gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Rydym am fod yn brifysgol sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, i Gymru, i'r Deyrnas Unedig ac i'r byd. ([Y Ffordd Ymlaen, 2018-2023: Ail-lunio COVID-19](#)).
2. Mae ymchwil yn rhan greiddiol o'n hunaniaeth sefydliadol ac, er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan y pandemig byd-eang, nid yw ein huchelgais o fod ymhlith y gorau o ran cynhyrchu gwybodaeth ac offer newydd, a hwylusir gan amgylchedd ymchwil bywiog a chynhwysol, wedi newid. Mae'r weledigaeth yn rhan hanfodol o gyflymu'r cyfraniadau mae Prifysgol Caerdydd yn eu gwneud ym meysydd iechyd, cyfoeth, diogelwch a lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, yn y DU ac yn fyd-eang. Mae gonestrwydd ymchwil, moeseg ac ymchwil agored yn rhan hanfodol o'r weledigaeth hon.
3. Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion [Concordat i Gefnogi Gonestrwydd Ymchwil](#) ('Concordat'), ac mae ganddi systemau cadarn ar waith i gefnogi ei hymchwilyr i gynnal ymchwil hyd at y safonau proffesiynol uchaf.

Diben a chyd-destun

4. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau'n cael eu cymryd i gefnogi safonau uchel o onestrwydd ymchwil, mae'r Concordat yn mynnu bod holl gyflogwyr ymchwilyr yn paratoi ac yn cyhoeddi datganiad blynyddol ar onestrwydd ymchwil ('Datganiad Blynyddol'), sy'n darparu:
 - 4.1. Crynodeb o weithredoedd a gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw er mwyn cynnal deall materion ynghylch gonestrwydd ymchwil a'u cymhwyso'n well;
 - 4.2. Sicrwydd bod y prosesau sydd ar waith ar gyfer delio â honiadau o gamymddygiad yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn ac yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad;
 - 4.3. Datganiad lefel uchel ar unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddygiad ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys data ar nifer yr ymchwiliadau;
 - 4.4. Datganiad ar yr hyn y mae'r Brifysgol wedi'i ddysgu o unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddygiad ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys pa wersi a ddysgwyd i atal yr un math o ddigwyddiad rhag digwydd eto; a

- 4.5. Datganiad ar sut mae'r Brifysgol yn creu ac yn ymgorffori amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus i roi gwybod am achosion o gamymddygiad.
5. Dyma bumed Datganiad Blynyddol y Brifysgol. Ar ôl cael cymeradwyaeth gan bwyllgorau perthnasol y Brifysgol, bydd y Datganiad Blynyddol hwn ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol a darperir dolen i Ysgrifenyddiaeth y Llofnodwyr i'r Concordat.

Y cyfnod o dan sylw yn y Datganiad Blynyddol hwn

6. Mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn crynhoi'r camau a'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/2021 er mwyn cryfhau gonestrwydd ymchwil. Mae hefyd yn rhoi'r sicrwydd a'r datganiadau sy'n ofynnol ar gamymddygiad ymchwil ac amgylchedd ymchwil dros yr un cyfnod.
7. I gael gwybodaeth fanwl am ddull gweithredu a fframwaith cyffredinol y Brifysgol o ran gonestrwydd ymchwil a chamymddygiad ymchwil, gweler [Datganiad Blynyddol cyntaf y Brifysgol](#), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017.

Camau gweithredu a gweithgareddau (Blwyddyn Academaidd 2020/2021)

Er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan y pandemig byd-eang a'r angen, ar adegau, i flaenoriaethu, darparu cyngor a chymorth prydlon i ymchwilwyr mewn sefyllfa sy'n newid yn gyflym, mae gonestrwydd ymchwil wedi parhau i fod yn faes ffocws i'r Brifysgol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/2021. Nodir isod y gweithgareddau allweddol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn er mwyn helpu i gefnogi gonestrwydd ymchwil a'i gryfhau.

8. Rhaglen Hyfforddiant Ar-lein am Onestrwydd Ymchwil ('Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil')
- 8.1. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau codi ymwybyddiaeth i wella'r nifer sy'n manteisio ar Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil y Brifysgol. I'ch atgoffa, mae Prifysgol Caerdydd wedi datblygu ei Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil ei hun (a lanswyd gyntaf yn 2017) sy'n orfodol ar hyn o bryd i'r holl Staff Academaidd ac i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â rhaglenni astudio Doethurol, MRes neu MPhil. Mae cynnwys yr Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil yn cael ei adolygu yn rheolaidd, er na wnaed unrhyw ddiweddariadau mawr i'r cynnwys yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/2021.
- 8.2. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/2021, cwblhaodd dros 2,300 o staff a myfyrwyr yr Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil, o'i gymharu ag ychydig dros 1,500 yn ystod Blwyddyn Academaidd 2019/2020.
- 8.3. Mae cwblhau'r Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil, a/neu fabwysiadu deunyddiau dysgu'r Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil, hefyd wedi'i ymgorffori o fewn modiwlau Israddedig ac Ôl-raddedig penodol a Addysgir. Mae'r Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil hefyd ar gael i staff a myfyrwyr y Brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly'n gwella hygyrchedd.

- 8.4. Yn rhan o ymrwymiad ehangach y Brifysgol i weithio gydag eraill i gryfhau gonestrwydd ymchwil, mae'r Brifysgol wedi rhannu ei deunyddiau dysgu Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil gyda Phrifysgol Grŵp Russell arall. Gwnaed hyn er mwyn addasu a defnyddio'r deunyddiau yn lleol ac mae wedi ymgysylltu â'r Brifysgol honno i drafod addasiadau arfaethedig i'r cynnwys ac i rannu syniadau.
- 8.5. O ddechrau Blwyddyn Academaidd 2021/2022, bydd cwblhau Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil y Brifysgol hefyd yn dod yn elfen orfodol o'r holl geisiadau am adolygiad moesegol a wneir i un o Bwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion y Brifysgol.

9. Moeseg Ymchwil

9.1. Cyhoeddodd y Brifysgol fersiwn ddiwygiedig o'i Pholisi Moeseg ar gyfer Ymchwil Dynol. Mae'r polisi hwn yn cynnig fframwaith ar gyfer cynnal ymchwil yn foesegol sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, deunydd dynol neu ddata dynol ('Ymchwil Ddynol'). Dyma oedd y prif ddiwygiadau i'r polisi:

- Ymgorffori (a lansio'n swyddogol) fframwaith Prifysgol newydd ar gyfer *'Adolygiad Moesegol o Ymchwil gan ddefnyddio Data Eilaidd a/neu Wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn unig'*. Datblygwyd y fframwaith hwn gan Grŵp Tasg a Gorffen y Brifysgol a chafodd ei gymeradwyo gan Bwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol ym mis Tachwedd 2020. Arweiniodd ymgorffori'r fframwaith hwn yn y Polisi Moeseg ar gyfer Ymchwil Dynol hefyd at yr angen i adolygu'r diffiniad o 'Data Dynol' sydd wedi'i gynnwys yn y polisi i helpu i wella eglurder a sicrhau cysondeb gyda'r fframwaith;
- Ychwanegu canllawiau ar ymchwil sy'n ymwneud â defnyddio data cyfryngau cymdeithasol (neu ddata tebyg ar y rhynggrwyd), er bod y canllawiau hyn eisoes wedi bod yn cael eu dosbarthu o fewn y Brifysgol ers peth amser (ond heb eu hymgorffori mewn polisi eto).
- Egluro y gallai dechrau gweithgarwch Ymchwil Dynol heb farn foesegol ffafriol (os oedd angen barn foesegol ffafriol), fod yn gyfystyr â chamymddygiad ymchwil (neu gamymddygiad academaidd yng nghydestun myfyriwr).
- Ychwanegu canllawiau pellach ar gydsyniad electronig

9.2. Mae Tîm Gonestrwydd Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg y Brifysgol ('RIGE') wedi parhau i gefnogi Ysgolion i weithredu templedi newydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol a gymeradwywyd gan Bwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol (ble roedd yn ofynnol i Ysgolion sy'n cynnal ymchwil dynol eu gweithredu yn barod ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2021/2022). Isod ceir rhai enghreifftiau o weithgarwch perthnasol a oruchwyliir gan Dîm Gonestrwydd Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg y Brifysgol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/2021:

- Diwygio'r ffurflen Adroddiad Moeseg Blynyddol a gyflwynwyd gan Ysgolion i Bwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol (fel rhan o broses adrodd moeseg flynyddol) – diweddarwyd y ffurflen i sicrhau ffocws penodol ar weithredu templedi newydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol a gymeradwywyd gan Bwyllgor Ymchwil

Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol yn lleol. Gwahoddwyd ysgolion hefyd i roi adborth ar agweddau penodol o'r templedi ac unrhyw heriau sy'n wynebu gweithredu'n lleol (gan gynnwys ym maes dyrannu adnoddau/llwyth gwaith).

- Paratoi canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion y Brifysgol ar atebion posibl ar gyfer delio â nifer fawr o brosiectau myfyrwyr y mae angen eu hadolygu'n foesebol.
- Cymeradwyo proses Ymgeisio am Adolygiad Moesegol Grŵp/Modiwl-Eang – cymeradwywyd y broses hon gan Bwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol, yn amodol bod Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion y Brifysgol yn bodloni gofynion sylfaenol penodol a benderfynwyd gan y Pwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol.
- Cymeradwyo diwygiadau templedi a chonsesiynau penodol i alluogi Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion y Brifysgol i arfer mwy o ddisgresiwn ac ymreolaeth mewn meysydd penodol – cymeradwyodd Bwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol nifer o ddiwygiadau a chonsesiynau yn dilyn adborth gan Bwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion y Brifysgol fel rhan o'r broses adrodd moeseg flynyddol.
- Cynnull gweithdy Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol – cynhaliwyd gweithdy ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, Gweinyddwyr Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, neu aelodau eraill a enwebwyd gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, ym mis Gorffennaf 2021 i drafod y diwygiadau a wnaed i dempledi Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol a gymeradwywyd gan Bwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol, a'r consesiynau a gymeradwywyd gan Bwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol. Roedd hyn hefyd yn gyfle i Bwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion y Brifysgol nodi unrhyw gwestiynau neu bryderon.
- Cynnig i ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen i adolygu ac i roi adborth ar y Protocolau Moeseg/Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a ddatblygwyd gan Bwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion y Brifysgol sy'n ymwneud ag adolygiad maen prawf llawn – cymeradwywyd y cynnig hwn gan Bwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol ac mae Tîm Gonestrwydd Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg y Brifysgol yn gweithio ar hyn o bryd i ffurfio grŵp o'r fath. Er mwyn cael cefndir pellach, mae templed gweithdrefn Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol a gymeradwywyd gan Bwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol yn mynnu bod yn rhaid i unrhyw brosiect Ymchwil Dynol sy'n bodloni'r adolygiad maen prawf llawn fod yn destun adolygiad Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol llawn, oni bai bod Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol wedi datblygu Protocol Moeseg/Gweithdrefn Weithredu Safonol benodol ar gyfer yr adolygiad maen prawf (neu brofion) llawn perthnasol, y gall ymchwilwyr eu dilyn er mwyn galluogi'r prosiect i gael ei ystyried drwy adolygiad cymesur yn lle hynny.

9.3. Yn ogystal, mae Pwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol wedi penderfynu bod yn rhaid cynnal gwahanol weithgareddau eraill i helpu i hwyluso arferion moesegol da. Mae hyn yn cynnwys paratoi canllawiau i ymchwilwyr ar gwblhau'r Templed Ffurflen Gais ar gyfer Adolygiad Moesegol (yn enwedig i fyfyrwyr) a hwyluso digwyddiad

blynyddol ar gyfer Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Ysgolion y Brifysgol i helpu i hyrwyddo'r gwaith o rannu a chyfnewid gwybodaeth ar draws cymuned Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol.

9.4. Ochr yn ochr â'r gwaith a wnaed yn ganolog i gefnogi gweithredu'r templedi Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol a gymeradwywyd gan Bwyllgor Ymchwil Agored, Gonestrwydd a Moeseg y Brifysgol, mae llawer o waith wedi'i wneud yn lleol gan Gadeiryddion, Aelodau a staff cymorth lleol Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, i sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu a chefnogi ymchwilwyr drwy'r broses newydd. Isod ceir rhai enghreifftiau o weithgarwch sydd wedi digwydd yn lleol:

- Creu Protocolau Moeseg/Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer adolygiad llawn o feini prawf (fel y cyfeirir atynt mewn pwynt bwled ym mharagraff 9.2).
- Paratoi canllawiau lleol a/neu ddisgyblu ar lenwi'r Ffurflen Gais newydd ar gyfer Adolygiad Moesegol, dogfennau ategol a disgwyliadau cyffredinol SREC.
- Sesiynau gwybodaeth/codi ymwybyddiaeth i staff a myfyrwyr ar y Ffurflen Gais newydd ar gyfer Adolygiad Moesegol a materion moesegol cyffredin sy'n codi yn y ddisgyblaeth.
- Cynnwys hyfforddiant moeseg ymchwil ar raglenni astudio israddedig a/neu ôl-raddedig.
- Hyrwyddo Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil y Brifysgol a bod angen i ymgeiswyr SREC ei gwblhau.
- Creu system ar gyfer cyflwyno ceisiadau moeseg ar-lein i hwyluso'r broses adolygu moesegol (gan rai Ysgolion sy'n derbyn nifer fawr o geisiadau am adolygiad moesegol).
- Casglu adnoddau adolygu moesegol perthnasol mewn un man ar gyfer staff a myfyrwyr.
- Cynnydd yn Aelodaeth SREC.

Mae'r prosiect cyfan hwn, sy'n ceisio cyflwyno cysondeb a safonau gofynnol ar draws pwyllgorau moeseg ymchwil y Brifysgol, yn enfawr ac mae'r Brifysgol yn hynod ddiolchgar i gadeiryddion ac aelodau'r pwyllgorau yn ogystal â staff cymorth lleol am barhau i ymgysylltu â'r broses ac am roi adborth gwerthfawr ac awgrymu gwelliannau i ORIEC a RIGE drwyddi draw.

10. Ymchwil sy'n cynnwys cyfranogiad dynol yn ystod y Pandemig

10.1. Sefydlodd y Brifysgol 'Grŵp Tasg a Gorffen Ymchwil Cyfranogwyr Dynol' i ystyried a nodi'r amodau lle gallai prosiectau ymchwil sy'n cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb â chyfranogwyr (clinigol ac anghlinigol), ailgychwyn a'r camau lliniaru a ddylai gael eu rhoi ar waith i sicrhau diogelwch ymchwilwyr a'u cyfranogwyr ymchwil.

10.2. Ers Awst 2020, safbwynt y Brifysgol yw, lle bo hynny'n bosibl, y dylid cynnal ymchwil cyfranogwyr dynol o bell (megis drwy offer digidol) cyhyd â bod cyfyngiadau pellter cymdeithasol ar waith. Datblygwyd canllawiau newydd i helpu ymchwilwyr sy'n ymgymryd ag ymchwil cyfranogwyr dynol o bell, gan gynnwys cyrchu a rheoli data ymchwil o bell a chynnal cyfweiliadau gan

ddefnyddio dulliau cynhadledd fideo a ffôn. Lle nad yw cynnal ymchwil o bell yn bosibl, mae'n rhaid cynnal asesiad risg i nodi risgiau i ymchwilwyr a chyfranogwyr sy'n rhan o'r prosiect a sicrhau y rhoddir mesurau lliniaru priodol ar waith cyn dechrau ymchwil cyfranogwyr dynol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymchwil Cyfranogwyr Dynol yn cwrdd yn rheolaidd i sicrhau bod canllawiau'n cael eu diweddarau ac yn cyd-fynd â gofynion cenedlaethol, lleol a'r Brifysgol.

11. Ymchwil ar anifeiliaid yn ystod y Pandemig

11.1. Ystyriwyd bod gofalu am anifeiliaid ymchwil ar y safle yn weithgaredd hanfodol drwy gydol cyfnod y pandemig. Er bod yn rhaid i rai prosiectau ymchwil ohirio eu dyddiadau cychwyn yn ystod cyfnodau clo, cwblhawyd yr holl arbrofion a oedd wedi dechrau er mwyn osgoi gwastraffu anifeiliaid. Er gwaethaf yr heriau a ddaw yn sgîl y pandemig, aeth y technegwyr sy'n gyfrifol am ofal dyddiol, cynnal a chadw a gwiriadau lles anifeiliaid ar y safle, i'r safle bob dydd yn ôl y gofyn cyfreithiol.

12. Diwylliant Ymchwil

12.1. Mae diwylliant ymchwil yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol yn y Brifysgol ac mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i feithrin diwylliant ymchwil cadarnhaol, cefnogol a chreadigol sy'n galluogi ei hymchwilwyr i lwyddo a datblygu. Mae gonestrwydd ymchwil yn un o'r nifer o feysydd sy'n berthnasol i'r gwaith ehangach sy'n cael ei wneud yn y Brifysgol o ran diwylliant ymchwil.

12.2. Mae Gweithgor Diwylliant Ymchwil y Brifysgol ('RCWG'), sy'n cynnwys cynrychiolwyr ym meysydd gonestrwydd ymchwil a chamymddygiad ymchwil, wedi parhau i gwrdd ac ymgysylltu yn ystod Blwyddyn Academiaidd 2020/2021. Er bod llawer o enghreifftiau o weithgarwch y Brifysgol yn cyd-fynd â hyrwyddo ei hymrwymiad i ddiwylliant ymchwil cadarnhaol, dyma ddwy enghraifft o weithgarwch sy'n berthnasol yn benodol i onestrwydd ymchwil:

- Crynodeb o weithgarwch adolygu gonestrwydd ymchwil hanesyddol y Brifysgol - cyflwynodd RIGE bapur manwl i RCWG a oedd yn cynnwys crynodeb o'r adolygiadau hanesyddol a gydlynir gan RIGE i asesu/myfyrio ar weithrediad y Brifysgol o'r Concordat i Gefnogi Gonestrwydd Ymchwil. Roedd y papur a gyflwynwyd i RCWG yn cynnwys crynodeb o'r meysydd lle mae'r Brifysgol wedi bodloni disgwyliadau yn y gorffennol neu ragori arnynt, ynghyd ag unrhyw feysydd gwella a nodwyd a'r camau priodol a gymerwyd. Yn sgîl y papur a gyflwynwyd i RCWG, mae timau perthnasol y Brifysgol sy'n gyfrifol am themâu penodol o ran diwylliant ymchwil wedi bod yn cydweithio'n well ac mae wedi eu hysgogi timau o'r fath i alinio gweithgareddau perthnasol. At y dyfodol, bydd aelodau RCWG yn cyfrannu at waith adolygu gonestrwydd ymchwil y Brifysgol fydd yn annog ystod fwy amrywiol o safbwyntiau ynghylch sut gall y Brifysgol barhau i wella ei dull hyrwyddo gonestrwydd ymchwil.
- Cymryd rhan yn yr 'Adolygiad o Goncordatau a Chytundebau' a gomisiynwyd gan UUK, UKRI ac Ymddiriedolaeth Wellcome – mae aelodau RCWG wedi cymryd rhan yn yr adolygiad hwn drwy lenwi

arolwg ar-lein ac, mewn rhai achosion, mynd i gyfweiliad i gynorthwyo UUK, UKRI ac Ymddiriedolaeth Wellcome i ddatblygu astudiaethau achos sefydliadol. O ran ei gefndir, nod cyffredinol yr adolygiad hwn yw ystyried effaith concordatau a chytundebau ar ddiwylliant ymchwil a'r amgylchedd ymchwil. Y Concordat i Gefnogi Gonestrwydd Ymchwil yw un o'r concordatau o dan sylw. Cynhelir yr adolygiad ochr yn ochr ag [adolygiad llywodraeth y DU o fiwrocratiaeth ymchwil](#) i gefnogi nodau ehangach [Cynllun Mapio Ymchwil a Datblygu'r DU](#).

13. Ymchwil Agored a Thryloywder

13.1. Cafodd datganiad ymchwil agored y Brifysgol ei gymeradwyo gan Gyngor y Brifysgol ac mae wedi'i gyhoeddi ar [wefan](#), y Brifysgol, gan ailbwysleisio ymrwymiad y Brifysgol i ymchwil agored.

13.2. Mae Ystorfa Data Ymchwil Prifysgol Caerdydd yn parhau i gael ei datblygu. Bydd yr ystorfa hon yn galluogi ymchwilwyr i rannu data ymchwil a'i gadw yn unol ag egwyddorion data FAIR. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud o ran integreiddio â Phorth Ymchwil y Brifysgol yn ystod haf 2021 ac mae disgwyl i'r ystorfa gael ei lansio yn hydref 2021. Mae'r ystorfa'n cael ei phweru gan wasanaeth [Jisc Research Repository Plus](#).

13.3. Er bod recriwtio Arweinwyr Ymchwil Agored a Gonestrwydd Ysgolion a Cholegau (o dan ddisgrifiad rôl estynedig) wedi'i ohirio oherwydd pryderon llwyth gwaith yn ystod y pandemig, mae Arweinwyr Rhyng-lywodraethol Presennol y Coleg ac Ysgolion wedi'u cadw o dan y disgrifiad rôl blaenorol.

13.4. Yn ystod 2021, cyfrannodd y Brifysgol hefyd at gais llwyddiannus am gyllid gan Rwydwaith Atgynhyrchu'r DU ('UKRN') i Gronfa Ddatblygu Ymchwil Lloegr i ffurfio consortiwm i hybu'r defnydd o arferion ymchwil agored ledled y DU. Bydd y cyllid yn helpu i roi'r DU ar flaen y gad o ran ymchwil drylwyr y gellir ei hailgynhyrchu, a bydd yn helpu i sicrhau bod y DU yn parhau i gynhyrchu ymchwil ragorol sy'n arwain y byd. Bydd y cyllid yn golygu bod rhagor yn defnyddio arferion ymchwil agored ledled y DU, drwy ddarparu hyfforddiant (ar draws sefydliadau sy'n rhan o UKRN i ddechrau, megis Prifysgol Caerdydd) a gwerthuso ei effaith.

14. Asesu ymchwil gyfrifol

14.1. Ers i'r Brifysgol lofnodi'r Datganiad ar Asesu Ymchwil ('DORA') ym mis Tachwedd 2019, mae wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at weithredu ei argymhellion. Nodir rhywfaint o weithgarwch perthnasol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/2021 isod.

14.2. Ym mis Ebrill 2021, cymeradwyodd Cyngor y Brifysgol [Ddatganiad Prifysgol Caerdydd ar Asesu Ymchwil Gyfrifol](#). Mae'r Datganiad Polisi, a grëwyd mewn ymgynghoriad â staff ymchwil, Gweithgor DORA a Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Brifysgol, yn cynnig cyfres o egwyddorion ar ddefnyddio metrigau ymchwil meintiol yn briodol.

14.3. Er mwyn sicrhau nad yw'r Brifysgol yn dibynnu ar fetrigau ar sail cyfnodolion, megis ffactorau effaith cyfnodolion ('JIFs'), wrth asesu cyfraniadau ymchwilydd unigol, rydyn ni wedi adolygu a diwygio prosesau

a dogfennaeth bresennol a oedd yn dibynnu (yn ddiamwys neu'n anuniongyrchol) ar y defnydd o JIFs neu enw da cyfnodolion. Yn benodol, mae'r Brifysgol wedi diweddarau canllawiau prawf ar gyfer staff, gan gyfeirio'n benodol at DORA, ac mae wedi ymgorffori asesiad o ymchwil gyfrifol mewn hyfforddiant panel recriwtio a hyrwyddo.

14.4. Mae pwyslais parhaus wedi bod ar hyfforddi, datblygu ac ymgynghori â Swyddog Asesu Ymchwil Cyfrifol y Brifysgol yn cynnal sesiynau galw heibio wedi'u trefnu, grwpiau ffocws a sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra ar DORA ac asesiad o ymchwil gyfrifol ar draws y Brifysgol. Yn sgîl adborth gan y rhai a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws, mae Gweithgor DORA yn datblygu prosesau ar gyfer adrodd a monitro asesiadau ymchwil gyfrifol yn yr Ysgolion.

15. Gwrthdaro rhwng Buddiannau

15.1. Mae'r Brifysgol wedi datblygu '[Polisi Cydymffurfio â Gofynion Gwrthdaro Buddiannau Allanol](#)' newydd. Mae'r polisi hwn yn atgyfnerthu ymrwymiad y Brifysgol i egwyddorion derbyniol bywyd cyhoeddus sy'n cwmpasu anhunanoldeb, gonestrwydd, gwrthrychedd, atebolrwydd, agwedd agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Mae'r polisi yn cydnabod bod ymchwilwyr yn cael cyllid cyhoeddus a phreifat a rhaid iddynt gynnal lefelau o dryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â datgan buddiannau. Mae'r polisi'n cyfeirio at rai gofynion hysbysu penodol ac yn rhoi gweithdrefn i hwyluso datganiadau perthnasol o fuddiannau.

16. Diogelu

16.1. Cymerodd y Brifysgol ran yn adolygiad Atal Niwed (diogelu) mewn Ymchwil UKRI, gan gyflwyno hunanasesiad o'i gweithdrefnau diogelu a'i threfniadau ar gyfer hyfforddiant. Yng ngoleuni gofynion hunanynysu COVID, mae'r Brifysgol wedi diweddarau ei chanllawiau a'i thempled asesu risg ar gyfer gweithgareddau diogelu i gynnwys canllawiau penodol ar gyflwyno gweithgareddau ar-lein.

17. Rheoli Data a Chofnodion Ymchwil

17.1. Mae'r Brifysgol wedi adolygu a diwygio ei chyfnodau cadw a'i datganiadau cyfarwyddo cysylltiedig ar gyfer cofnodion ymchwil a data. Yn rhan o'r ymarfer hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad â Chyfarwyddwyr Ymchwil y Brifysgol, Cyfarwyddwyr Ymchwil Ôl-raddedig a Chadeiryddion SREC ac fe gynhaliwyd adolygiad o bolisiau data cyllidwyr, yn ogystal ag arferion mewn sefydliadau eraill. Cyflwynwyd canlyniadau'r ymarfer hwn a'r diwygiadau arfaethedig i'r cyfnodau cadw (yng ngoleuni adborth yr ymgynghoriad) i ORIEC, Bwrdd Gweithredol y Brifysgol a Phwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol, a gymeradwyodd, yn amodol ar fân ddiwygiad, y cyfnodau cadw diwygiedig a'r datganiadau cyfarwyddo cysylltiedig a amlinellir yn Adran 2. 9 ('cynnal prosiect ymchwil') o [Amserlen Cadw Cofnodion Ymchwil y Brifysgol](#).

17.2. Darparwyd tair sesiwn hyfforddi i ymchwilwyr staff a myfyrwyr ar reoli data ymchwil drwy raglenni Datblygu Staff ac Academi Ddoethurol y Brifysgol. Darparwyd dwy sesiwn bwrpasol hefyd ar gyfer yr Ysgol

Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth ar ddata ymchwil a diogelu data. Mae tiwtorial byr ar-lein ar reoli data ymchwil hefyd wedi'i baratoi a'i ychwanegu at fewnrwyd y staff a'r myfyrwyr. Mae rhwydwaith o hyrwyddwyr rheoli gwybodaeth wrthi'n cael ei sefydlu ar draws y Brifysgol i gynyddu dealltwriaeth o ddiogelu data a rheoli cofnodion.

17.3. Ychwanegodd y Brifysgol hefyd arwyddbost i'w gofynion yn yr Aseiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn nhempeld y Ffurflen Gais ar gyfer Adolygiad Moesegol (a gwblhawyd gan ymchwilwyr sy'n gwneud cais am adolygiad moesegol gan SREC).

18. Llywodraethu Meinweoedd Dynol

18.1. Mae'r Brifysgol wedi datblygu datganiad safbwynt a gweithdrefn ynglŷn â defnyddio deunydd perthnasol yn y dyfodol i'w ddefnyddio yn y caniatâd. Yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol allanol, byddai defnyddio deunydd at ddibenion o'r fath yn dibynnu ar dystiolaeth:

- (a) bod y gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol amrywiol ar gyfer cydsyniad wedi'u dilyn; a
- (b) bod y Brifysgol wedi asesu a oedd defnydd, ar yr adeg y cafwyd caniatâd, at ddibenion sensitif fel gwaith gydag anifeiliaid neu ddefnydd masnachol yn hysbys neu'n debygol, ac wedi dod i'r casgliad nad oedd at ddibenion o'r fath.

Mae'r weithdrefn gymeradwy wedi'i hychwanegu at Weithdrefnau Gweithredu Safonol Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ymchwil Meinweoedd Dynol ac mae Datganiad Cydsyniad Silent newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer unrhyw ymchwilwyr sydd am ddefnyddio samplau at ddibenion o'r fath.

19. Ymchwil Ddibynadwy

19.1. Mae'r Brifysgol yn adolygu ei dull presennol a'i strwythur llywodraethu ynghylch Ymchwil Ddibynadwy ac mae'n ymgymryd â nifer o weithgareddau gyda'r bwriad o ddatblygu Cynllun Gweithredu Ymchwil Ddibynadwy. Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnwys rhanddeiliaid amrywiol ar draws y Brifysgol gan gynnwys y Rhag Is-Ganghellor Rhyngwladol a Recriwtio Myfyrwyr a Phennaeth Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg, a nifer o dimau gwasanaethau proffesiynol gan gynnwys Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd, Cydymffurfiaeth a Risg, Adnoddau Dynol a'r Gofrestrfa.

19.2. O ran is-themâu penodol Ymchwil Ddibynadwy, mae'r Brifysgol yn bwriadu cwblhau'r gwaith o ddatblygu Polisi Rheolaethau Allforio ac adolygu ei Pholisi Ymchwil Sensitif i Ddiogelwch presennol unwaith y bydd dull ehangach a strwythur llywodraethu'r Brifysgol o amgylch Ymchwil Ddibynadwy wedi'i gwblhau. Yn amodol ar yr uchod, mae llawer iawn o waith cefndir, casglu gwybodaeth ac ymgysylltu yn digwydd rhwng y Brifysgol, rhanddeiliaid mewnol, grwpiau allanol ac asiantaethau'r Llywodraeth.

20. Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF)

20.1. Er nad yw'r ymarfer REF, ynddo'i hun, yn weithgaredd sy'n ymwneud â gonestrwydd ymchwil yn benodol, rhoddodd paratoadau'r Brifysgol ar gyfer REF y cyfle i fyfyrion ar amgylchedd ymchwil ehangach y Brifysgol a sut y gallai'r Brifysgol ymgorffori themâu sy'n gysylltiedig â gonestrwydd mewn gweithdrefnau cyflwyno REF canolog a lleol. Dyma rai enghreifftiau o weithgarwch perthnasol:

- Diweddarodd y Brifysgol ei Chôd Ymarfer ar gyfer REF 2021 gyda phwyslais ar hyrwyddo ymddygiad moesegol a chynhwysol. Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ('EDI') ar gyfer adolygwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau. Ei nod oedd cefnogi dull adolygu teg a gwneud pobl yn ymwybodol o faterion fel rhagfarn anymwybodol ac ymwybodol.
- Darparwyd sesiwn EDI ryngweithiol i'r adolygwyr a gynlluniwyd i leihau rhagfarn wrth adolygu papurau. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys rhannu'r adolygwyr yn grwpiau gyda hwyluswyr EDI yn annog trafodaeth rydd a gonest. Agorodd yr hyfforddiant gydag adran yn ymdrin â thegwch y broses REF, dylanwad adolygydd, pa grwpiau sy'n wynebu manteision a rhwystrau. Yn dilyn hynny, fe wnaeth trafodaeth grŵp a ystyriodd lle gall rhagfarn bosibl ddod i'r amlwg yn y broses adolygu, amlygu rhagfarn anymwybodol adolygwyr ac arweiniodd at her gan gyfoedion. Yn olaf, daeth y sesiwn i ben gyda thrafodaeth fyfyrion ar yr hyn y gellir ei newid ar gyfer proses decach a faint o bŵer sydd gan uwch-academydd i ysgogi newid o fewn y Brifysgol.
- Mynychwyd y rhan fwyaf o'r sesiynau gan staff â rôl ymchwil naill ai'n ganolog i'r Brifysgol neu'n Ddeon Ymchwil. Trefnwyd y sesiynau fel bod ystod amrywiol o Ysgolion yn cael eu cynrychioli. Rhoddodd hyn y cyfle i bob Ysgol glywed am ei gilydd a'u prosesau. Gadawodd llawer ohonynt yn datgan eu bwriad i wella cysondeb o ran recriwtio, hyrwyddo, y cyfleoedd ymchwil sydd ar gael, a sut mae grwpiau ymchwil yn ymddwyn. Roedd hyn yn amlwg yn cynnig manteision o ran cynwysoldeb ond roedd barn gref y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar foeseg a gonestrwydd ymchwil ymhlith yr holl staff sy'n cynnal ymchwil. Roedd cydnabyddiaeth bod gan uwch-staff gyfrifoldeb i godi ymwybyddiaeth o ymddygiad ymchwil da ymhlith ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa yn eu grwpiau ymchwil.
- Fe wnaeth 75% o bobl mewn rôl gwneud penderfyniadau ynghylch REF a 54% o bobl mewn rôl adolygu gymryd rhan yn y sesiwn hyfforddi fanwl hon.
- Darparodd y Brifysgol amgylchedd diogel a chefnogol hefyd i staff ddatgan amgylchiadau a effeithiodd ar eu gallu i ymchwilio'n gynhyrchiol, a lleihaodd ei disgwyliadau ar staff lle cytunir bod eu hamgylchiadau wedi effeithio ar eu cynhyrchiant.
- Drwy gydol paratoadau REF y Brifysgol, parhaodd uwch-staff y Brifysgol a thimau gweinyddol lleol i annog cydweithwyr i gwblhau Rhaglen Hyfforddiant Ar-lein Gonestrwydd Ymchwil y Brifysgol fel ffordd o gryfhau gonestrwydd ymhellach mewn amgylcheddau ymchwil lleol.

21. Ymgysylltu allanol a rhannu arferion da

21.1. Mae'r Brifysgol wedi parhau i ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau allanol er mwyn rhannu arfer da ac archwilio trefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer hyrwyddo gonestrwydd ymchwil. Yn ogystal â'r rhai sydd eisoes wedi'u crybwyll uchod (fel UKRN), mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn aelod gweithgar o Fforwm Gonestrwydd Ymchwil Grŵp Russell a Fforwm Rheoli Allforio Grŵp Russell. Mae RIGE hefyd mewn cysylltiad â Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU ('UKRIO') yn rheolaidd gan fod Prifysgol Caerdydd yn ei chefnogi ac yn cymryd rhan weithredol yn ei gweithgarwch. Mae'r Brifysgol hefyd yn sicrhau presenoldeb RIGE yng nghyfarfodydd Cymdeithas Noddwyr y Brifysgol lle bynnag y bo modd.

21.2. Mae'r Brifysgol hefyd wedi parhau (boed ar ei phen ei hun, neu'n rhan o grŵp ehangach o gynrychiolwyr) i roi adborth ar ganllawiau a/neu bolisiâu allanol sydd newydd eu datblygu mewn meysydd sy'n berthnasol i onestrwydd ymchwil. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys Teclyn Hunanasesu UKRIO ar gyfer y Concordat a chanllawiau'r Uned Rheoli Allforio ar Reolaethau Allforio ar Ymchwil Academaidd.

Camau a gynllunnir

22. Yn ogystal â pharhau i gynnal y llu o weithgareddau y soniwyd amdanynt uchod, mae nifer o weithgareddau gonestrwydd ymchwil wedi'u cynllunio i ddechrau a/neu i orffen yn y Flwyddyn Academaidd nesaf gan gynnwys:

22.1. Adolygiad manwl o berfformiad y Brifysgol yn erbyn Concordat diwygiedig Ers cyhoeddi Teclyn Hunanasesu diwygiedig UKRIO ar gyfer y Concordat (ym mis Medi 2021), bydd RIGE yn arwain ar gydlyn adolygiad manwl o berfformiad y Brifysgol yn erbyn y Concordat diwygiedig, gan ddefnyddio Teclyn Hunanasesu UKRIO. Bydd gan ORIEC gyfrifoldeb goruchwylio am y gweithgaredd hwn.

22.2. Adolygiadau Polisi a Gweithdrefn

Disgwylir i bolisiâu a gweithdrefnau amrywiol sy'n ymwneud â gonestrwydd ymchwil gael eu hadolygu (a'u diwygio yn ôl pob tebyg), gan gynnwys:

- Côt Ymarfer Gonestrwydd a Llywodraethu Gwaith Ymchwil y Brifysgol (fframwaith y Brifysgol ar gyfer ymarfer ymchwil da). Mae RIGE yn cydlyn adolygiad cyffredinol o'r Côt Ymarfer hwn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Yn ôl pob tebyg, yr adolygiad manwl o berfformiad y Brifysgol yn erbyn y Concordat diwygiedig a nodir ym mharagraff 22.1 fydd yn llywio'r adolygiad o'r Côt Ymarfer;
- Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd y Brifysgol. Er i adolygiad o'r Weithdrefn hon ddechrau yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/2021, mae'r adolygiad yn mynd rhagddo o hyd. Dyma brif nodau'r adolygiad:
 - Sicrhau bod y weithdrefn yn cyd-fynd â'r Concordat diwygiedig ac arferion gorau sy'n dod i'r amlwg yn y maes hwn (dechreuodd y gwaith alinio diffiniadau yn 2020/21).
 - Ystyried ac amlinellu dull/gweithdrefn briodol ar gyfer ymddygiadau nad ydynt ar lefel camymddygiad ymchwil ond sydd heb weithdrefn amgen wedi'i nodi'n glir ar eu cyfer ar hyn o bryd yn y Brifysgol.
 - Rhoi eglurder ynghylch rheoli anghydfodau ynghylch awdurdod.

- Rhoi eglurder ynghylch dull y Brifysgol o ymdrin â'r rhai sy'n cyflwyno cwyn ynghylch materion sydd eisoes wedi'u datrys e.e. o dan weithdrefn cwyno.
- Sicrhau bod cymorth priodol ar gael i ymatebwyr sy'n mynd y tu hwnt i'r 'hawl i ddod â chynrychiolydd' ar hyn o bryd ac sy'n sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael am y broses.
- Rhoi eglurder ynghylch sut bydd y Brifysgol yn rheoli achosion o beidio â dilyn ei gweithdrefnau.
- Rhoi eglurder ynghylch sut bydd y Brifysgol yn rheoli cwynion dienw.
- Polisi Mynediad Agored y Brifysgol. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod y polisi'n cyd-fynd â newidiadau diweddar i bolisi UKRI yn y maes hwn a'r disgwyliadau sy'n dod i'r amlwg.

22.3. Arweinwyr Gonestrwydd Ymchwil Agored

Er y bu rhywfaint o oedi i'r fenter hon fel y nodir ym mharagraff 13.3, mae'r Brifysgol yn bwriadu hysbysebu a phenodi Arweinwyr Gonestrwydd Ymchwil Agored y Coleg a'r Ysgol yn ystod y Flwyddyn Academaidd nesaf.

22.4. Ymchwil Ddibynadwy

Fel y nodwyd ym mharagraff 19.1, mae'r Brifysgol yn bwriadu cwblhau ei dull gweithredu a'i strwythurau llywodraethu ar gyfer Ymchwil Ddibynadwy a datblygu Polisi Rheolaeth allforio sefydliadol.

Delio ag unrhyw honiadau o Gamymddygiad Ymchwil

23. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod ei phrosesau ar gyfer delio â honiadau o gamymddygiad ymchwil yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn, yn deg ac yn briodol i anghenion y Brifysgol.

Honiadau yn erbyn staff Prifysgol Caerdydd

24. Mae'r Brifysgol yn cymryd pob honiad o Gamymddygiad Ymchwil Academaidd o ddifrif ac mae ganddi weithdrefn benodol i ddelio â honiadau o'r fath. Mae Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd y Brifysgol ('Gweithdrefn ARM'), ynghyd â chysylltiad a enwir, ar gael i'r cyhoedd ar [wefan](#) y Brifysgol.
25. Mae tri cham i'r weithdrefn ARM. Ym mhob cam, gall y cyhuddiadau gael eu gollwng neu eu cymryd ymlaen i'r cam nesaf:
- 25.1. Cam Rhagarweiniol lle bydd yr Unigolyn a Enwir, mewn ymgynghoriad â'r PVC ac fel arfer o fewn 20 diwrnod gwaith, yn cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r cyhuddiad. Er mwyn dod i benderfyniad, caiff yr Unigolyn a Enwir geisio cyngor gan arbenigwr mewnol ynghylch difrifoldeb a hygredd y pryderon.
- 25.2. Cam sgrinio lle bydd Panel o hyd at dri aelod o staff mewnol sy'n meddu ar arbenigedd perthnasol a statws academaidd, fel arfer o fewn 30 diwrnod gwaith, yn cynnal gwerthusiad cychwynnol o'r holl ddeunydd perthnasol sy'n ymwneud â'r cyhuddiad a ddarparwyd gan yr Achwynydd a'r Atebydd, gan ofyn am eglurhad pellach os oes angen. Bydd y Panel Sgrinio yn paratoi adroddiad ysgrifenedig, cyfrinachol o'i werthusiad a'i benderfyniad, a'i gyflwyno i'r Unigolyn a Enwir.

25.3. Cynhelir Cam Ymchwiliad Ffurfiol, lle sefydlir panel yn cynnwys Cadeirydd annibynnol, diduedd a dau aelod diduedd gydag arbenigedd a statws priodol. Dylai'r Cadeirydd ac o leiaf un o'r ddau aelod fod o du allan i'r Brifysgol, ac ni ddylent fod yn cael eu cyflogi gan y Brifysgol nac yn gweithio o dan gontract i'r Brifysgol. Ni ddylai'r aelod mewnol fod yn aelod o staff yn yr un Ysgol â'r Atebydd.

26. Fel y nodwyd ym mharagraff 22.2, mae'r Weithdrefn ARM yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a disgwylir y bydd gweithdrefn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi yn ystod y Flwyddyn Academaidd nesaf.

Honiadau yn erbyn myfyrwyr

27. Mae'r Brifysgol yn cymryd pob honiad o gamymddygiad gan fyfyrwyr yn ystod ymchwil, neu'n gysylltiedig â hi, o ddifrif ac mae ganddi ystod o bolisiâu a gweithdrefnau i ddelio â honiadau o'r fath. Bydd yr union bolisi a'r weithdrefn i'w defnyddio yn dibynnu ar natur yr honiad/yr ymddygiad honedig a'r math o fyfyrwr. Y polisi mwyaf perthnasol mewn perthynas â chamymddygiad myfyrwyr yn y cyd-destun penodol hwn yw Polisi Gonestrwydd Academaidd y Brifysgol, a Gweithdrefnau Camymddygiad Academaidd cysylltiedig. Mae'r rhain i gyd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Academaidd y Brifysgol sydd ar gael i'r cyhoedd ar [wefan](#) y Brifysgol.

28. Mae Polisi Gonestrwydd Academaidd y Brifysgol yn nodi egwyddorion cyffredinol yr hyn sy'n cael ei ystyried yn Gamymddygiad Academaidd ac mae'n cadarnhau y bydd Gweithdrefn Camymddygiad Academaidd berthnasol yn cael ei chymhwyso i unrhyw fyfyrwr yr honnir ei fod wedi cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath. Y gweithdrefnau perthnasol y cyfeirir atynt yw Gweithdrefn Camymddygiad Academaidd (Graddau Ymchwil) y Brifysgol a Gweithdrefn Camymddygiad Academaidd y Brifysgol (Myfyrwyr a Addysgir).

29. Mae Gweithdrefnau Camymddygiad Academaidd y Brifysgol yn cynnwys proses deg a chilir ar gyfer ystyried ac ymchwilio i bryderon ynghylch camymddygiad academaidd. Mewn perthynas â'r Weithdrefn Camymddygiad Academaidd (Graddau Ymchwil) yn benodol, mae tri cham i'r weithdrefn, sef:

29.1. Cam 1 (Adolygiad Rhagarweiniol) - mae'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu Gadeirydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd (neu enwebai priodol), fel y bo'n berthnasol, yn cynnal adolygiad cychwynnol o'r pryderon. Yn dibynnu ar pryd y codwyd y pryderon, gallai'r Adolygiad Rhagarweiniol arwain at ddiystyru'r pryderon, cymryd camau adferol neu gyfeirio'r pryderon at ymchwiliad Cam 2.

29.2. Cam 2 (Ymchwiliad Ffurfiol) - mae Pennaeth yr Ysgol yn penodi un o uwch-aelodau staff academaidd yr ysgol i fod yn Swyddog Ymchwilio ac ystyried y pryderon, cwrdd â'r partïon perthnasol a llunio adroddiad. Mae Pennaeth yr Ysgol yn ystyried yr adroddiad a'r holl dystiolaeth sydd ar gael ac yn penderfynu, ar sail tebygolrwydd, a fu unrhyw Gamymddygiad Academaidd. Gall Pennaeth yr Ysgol wrthod y pryderon os nad oes sail iddynt neu os nad oes digon o dystiolaeth bod Camymddygiad Academaidd wedi digwydd, neu gallant benderfynu, ar sail tebygolrwydd, fod Camymddygiad Academaidd wedi digwydd. Os penderfynir bod Camymddygiad Academaidd wedi digwydd, gall Pennaeth yr Ysgol

gyfeirio'r achos at Banel Gonestrwydd Academaidd Cam 3 neu gall benderfynu, oherwydd lefel y difrifoldeb a/neu amgylchiadau perthnasol eraill, nad yw'r achos yn cyfiawnhau cael ei gyfeirio at Gam 3 ac y gellir cymryd camau adferol penodol yn lle hynny.

29.3. Cam 3 (Panel Gonestrwydd Academaidd) - caiff Panel Gonestrwydd Academaidd ei gynnull, sy'n cynnwys 3 aelod staff academaidd o'r tu allan i'r Ysgol, i ystyried yr achos. Gall y panel wrthod y pryderon neu benderfynu, ar sail tebygolrwydd, fod Camymddygiad Academaidd wedi digwydd. Os yw'r panel yn penderfynu bod Camymddygiad Academaidd wedi digwydd, gall osod un gyfres neu ragor o gamau gweithredu a sancsiynau rhestredig sy'n cynnwys, er enghraifft, ymddiheuriad ysgrifenedig, addasu traethawd ymchwil a cheryddon ffurfiol eraill gan gynnwys gwaharddiad o'r Brifysgol.

30. Mae gan y Brifysgol Dîm Achosion Myfyrwyr canolog sydd â'r rôl ganlynol mewn perthynas ag achosion o Gamymddygiad Academaidd:

30.1. Cyngori Ysgolion ar y camau sy'n ofynnol o dan y gweithdrefnau;

30.2. Cynnull panel, a chefnogi proses y panel (os penderfynwyd yn ystod yr ymchwiliad cynharach fod angen panel); a

30.3. Chofnodi canlyniad ymchwiliad, beth bynnag fo'r canlyniad (gan gynnwys diystyru pryderon).

Datganiad ar ymchwiliadau i Gamymddygiad Ymchwil

31. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/2021, cafwyd tri chyhuddiad/cyfres o gyhuddiadau o dan weithdrefn ARM y Brifysgol (ARM 21.01, ARM 21.02 ac ARM 21.03). Dyma oedd y penderfyniadau yn yr achosion hyn:

31.1. ARM 21.01 – gwrthodwyd yn y Cam Sgrinio. Er i'r Adolygiad Rhagarweiniol nodi cwestiynau'n ymwneud â chamliwio/awdurdodi a llên-ladrad i'w hystyried gan banel sgrinio, ni wnaeth y panel gadarnhau'r honiadau. Fodd bynnag, gwnaed rhai argymhellion ynghylch arferion gorau o ran awduraeth i'r ymatebydd ac i'r Ysgol.

31.2. ARM 21.02 – gwrthodwyd yn ystod y cam Adolygu Rhagarweiniol gan nad oedd unrhyw dystiolaeth o gamymddygiad oherwydd ni chafodd meini prawf ynghylch awduraeth eu bodloni.

31.3. ARM 21.03 - ni chymerwyd unrhyw gamau mewn perthynas ag ymchwiliad gan na chafodd ei dderbyn fel cwyn. Rhoddodd Pennaeth yr Ysgol wybod i'r academydd am y sylwadau mewn neges ar-lein a chynigiodd gymorth perthnasol.

32. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/2021, derbyniodd y Tîm Achosion Myfyrwyr dri adroddiad o ymchwiliadau mewn perthynas â myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig a gynhaliwyd o dan Weithdrefn Camymddygiad Academaidd (Graddau Ymchwil y Brifysgol)). Dyma oedd y penderfyniadau yn yr achosion hyn:

- 32.1. Achos 1 – Pryderon ynghylch Camymddygiad Academaidd a wrthodwyd gan Bennaeth yr Ysgol (neu enwebai).
- 32.2. Achos 2 – Cadarnhau pryderon ynghylch Camymddygiad Academaidd yn ystod ymchwiliad Cam 2. Fodd bynnag, oherwydd lefel y difrifoldeb a/neu amgylchiadau perthnasol eraill, penderfynwyd nad oedd modd cyfiawnhau cyfeirio'r achos at Banel Gonestrwydd Academaidd Cam 3. Yn hytrach, gosododd Pennaeth yr Ysgol y sancsiynau canlynol ar y myfyriwr: Gofyniad i ddiwygio gwaith ysgrifenedig a chyhoeddi nodyn ar gofnod y myfyriwr.
- 32.3. Achos 3 – Cadarnhau pryderon ynghylch Camymddygiad Academaidd yn ystod ymchwiliad Cam 2. Fodd bynnag, oherwydd lefel y difrifoldeb a/neu amgylchiadau perthnasol eraill, penderfynwyd nad oedd modd cyfiawnhau cyfeirio'r achos at Banel Gonestrwydd Academaidd Cam 3. Yn hytrach, gosododd Pennaeth yr Ysgol y sancsiynau canlynol ar y myfyriwr: Gofyniad i adolygu gwaith ysgrifenedig a chael hyfforddiant pellach.

Beth mae'r Brifysgol wedi'i ddysgu o'r ymchwiliadau?

33. Dysgwyd y gwersi canlynol o'r ymchwiliadau ARM a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn Academaidd 2020/2021:
- 33.1. Y byddai'n ddefnyddiol creu taflen wybodaeth i'w rhoi i'r rhai sy'n ymateb i achosion ARM i esbonio Gweithdrefn ARM mewn fformat syml a nodi'r cymorth sydd ar gael.
- 33.2. Y dylid diweddarau'r Weithdrefn ARM i ystyried amgylchiadau lle nad yw'r ymatebydd yn cymryd rhan yn y weithdrefn ac i nodi cyfle i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig heb fod yn rhan o'r cyfarfodydd esboniad/ymgysylltu cychwynnol/dilynol.
- 33.3. Bod awduraeth yn parhau i fod yn un o'r meysydd allweddol sy'n achosi gwrthdaro a'i bod yn aml yn ymwneud ag anghytundeb o ran cyfraniad yn hytrach nag ymdrech bwriadol gan un ochr i gamliwio. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith gydag Ysgolion i annog arferion gorau yn y maes hwn. Gallai hyn gynnwys defnyddio modelau cydnabod priodol a defnyddio cytundebau awdurdodol i egluro rolau a chyfraniadau.
34. O ran achosion o gamymddygiad gan fyfyrwyr, o ystyried bod y rhan fwyaf o achosion o Gamymddygiad Academaidd yn cael eu hymchwilio a'u datrys yn lleol (gan Bennaeth yr Ysgol gan amlaf), mae'r Brifysgol yn ystyried sut y gall fod yn fwy effeithiol o ran rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd o ymchwiliadau o'r fath gyda'r bwriad o roi'r wybodaeth hon mewn Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol.

Creu ac ymgorffori amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrrwyr yn teimlo'n gyfforddus i roi gwybod am achosion o gamymddygiad

35. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae ei holl staff a myfyrrwyr yn gallu rhoi gwybod am gamymddygiad a theimlo eu bod yn cael cefnogaeth drwy'r broses hon. Mae gan y Brifysgol sawl mecanwaith a galluogwr ar gyfer hyn gan gynnwys:

- Y cyngor a'r gefnogaeth sydd ar gael gan dimau/cysylltiadau canolog y Brifysgol ar ystod o bynciau a themâu gan gynnwys gonestrwydd ymchwil, moeseg ymchwil, diwylliant ymchwil, asesiad ymchwil gyfrifol a chwythu'r chwiban.
- Pwynt cyswllt a enwir ar gyfer honiadau ARM.
- Rhwydwaith o Arweinwyr Gonestrwydd Ymchwil Ysgol a Swyddogion Moeseg (pwyntiau cyswllt lleol).
- Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil y Brifysgol sy'n trafod cynnwys pwrpasol ar roi gwybod am gamymddygiad ymchwil ac sy'n cyfeirio at gefnogaeth fewnol ac argaeledd UKRIO fel ffynhonnell cyngor allanol, annibynnol.
- Cyflwyno sesiynau penodol i Ysgolion am onestrwydd ymchwil/hyfforddiant camymddygiad ymchwil lle bo angen neu pan ofynnir amdanynt.

36. Bydd y Brifysgol yn parhau i adolygu a monitro ei dull yn y maes hwn a bydd yn ceisio adolygu unrhyw argymhellion a wneir gan UKRIO yn ei Offeryn Hunanasesu.

Paratoi'r Datganiad Blynyddol hwn

37. Cydlynwyd y gwaith o baratoi'r Datganiad Blynyddol hwn gan y Tîm Gonestrwydd, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil (RIGE). Cyflwynwyd drafft o'r datganiad hwn i Fwrdd Gweithredol y Brifysgol i'w nodi, ac fe'i cymeradwywyd, yn amodol ar un ychwanegiad, gan ORIEC ar 28 Medi 2021.

38. Cafodd y Datganiad Blynyddol ei gymeradwyo gan Bwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol hefyd ar 22 Hydref 2021 ac fe'i nodwyd gan y Senedd ar 10 Tachwedd 2021, cyn ei anfon ymlaen at y Cyngor i'w gymeradwyo ar 24 Tachwedd 2021.

Yr Athro Kim Graham

**Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter
Tachwedd 2021**

Allwedd talfyriadau

ARM	Camymddygiad Ymchwil Academaidd
DORA	Datganiad ar Asesu Ymchwil
ORIEC	Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored
RCWG	Gweithgor Diwylliant Ymchwil
RGRIF	Fforwm Gonestrwydd Ymchwil Grŵp Russell
RIGE	Tîm Gonestrwydd Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg
SREC	Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol
UKRI	Ymchwil ac Arloesedd y DU
UKRIO	Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU
UKRN	Rhwydwaith Ailgynhyrchu'r DU
UUK	Prifysgolion y Deyrnas Unedig